



Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

2019 dccc 4

Legislation (Wales) Act 2019

2019 anaw 4



Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

2019 dccc 4

CYNNWYS

RHAN 1

HYGYRCHEDD CYFRAITH CYMRU

- 1 Dyletswydd i gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adolygiad
- 2 Rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru

RHAN 2

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

Cymhwyso'r Rhan a'i heffaith

- 3 Deddfwriaeth y mae'r Rhan hon yn gymwys iddi
- 4 Effaith darpariaethau'r Rhan hon

Deddfwriaeth ddwyieithog Cymru

- 5 Statws cyfartal y testunau Cymraeg a Saesneg

Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn neddfwriaeth Cymru

- 6 Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion
- 7 Mae geiriau yn y ffurf unigol yn cynnwys y ffurf luosog ac fel arall
- 8 Nid yw geiriau sy'n dynodi rhywedd yn gyfyngedig i'r rhywedd hwnnw
- 9 Amrywio geiriau ac ymadroddion oherwydd gramadeg etc.
- 10 Cyfeiriadau at amser o'r dydd
- 11 Cyfeiriadau at y Sofren
- 12 Mesur pellter

Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig

- 13 Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig
- 14 Y diwrnod pan fernir bod dogfen wedi ei chyflwyno



Legislation (Wales) Act 2019

2019 anaw 4

CONTENTS

PART 1

ACCESSIBILITY OF WELSH LAW

- 1 Duty to keep accessibility of Welsh law under review
- 2 Programme to improve accessibility of Welsh law

PART 2

INTERPRETATION AND OPERATION OF WELSH LEGISLATION

Application and effect of Part

- 3 Legislation to which this Part applies
- 4 Effect of provisions in this Part

Bilingual Welsh legislation

- 5 Equal status of Welsh and English language texts

Meaning of words and expressions used in Welsh legislation

- 6 Definitions of words and expressions
- 7 Words in the singular include the plural and vice versa
- 8 Words denoting a gender are not limited to that gender
- 9 Variations of a word or expression due to grammar etc.
- 10 References to time of day
- 11 References to the Sovereign
- 12 Measurement of distance

Service of documents by post or electronically

- 13 Service of documents by post or electronically
- 14 Day on which service is deemed to be effected

Pwerau a dyletswyddau

- 15 Parhad pwerau a dyletswyddau
 16 Arfer pŵer neu ddyletswydd nad yw mewn grym
 17 Cynnwys darpariaethau machlud a darpariaethau adolygu mewn is-ddeddfwriaeth
 18 Dirymu, diwygio ac ailddeddfu is-ddeddfwriaeth
 19 Diwygio is-ddeddfwriaeth gan Ddeddf Cynulliad
 20 Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl

Cyfeiriadau yn neddfwriaeth Cymru at ddeddfwriaeth a dogfennau eraill

- 21 Cyfeiriadau at raniadau o ddeddfiadau, offerynnau a dogfennau
 22 Argraffiadau o Ddeddfau'r Cynulliad neu o Fesurau'r Cynulliad y cyfeirir atynt
 23 Argraffiadau o Ddeddfau gan Senedd y Deyrnas Unedig y cyfeirir atynt
 24 Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir mewn cyfraith ddomestig ar ôl ymadael â'r UE
 25 Mae cyfeiriadau at ddeddfiadau yn gyfeiriadau at ddeddfiadau fel y'u diwygiwyd
 26 Cyfeiriadau at offerynnau'r UE

Dyblygu troseddau

- 27 Troseddau dyblyg

Cymhwyso i'r Goron

- 28 Cymhwyso deddfwriaeth Cymru i'r Goron

Deddfwriaeth yn dod i rym

- 29 Yr amser pan ddaw deddfwriaeth Cymru i rym
 30 Y diwrnod y daw Deddf Cynulliad i rym
 31 Gorchmynion a rheoliadau sy'n dwyn Deddfau'r Cynulliad i rym

Diwygio, diddymu a dirymu deddfwriaeth

- 32 Diwygiadau a wneir i ddeddfwriaeth Cymru neu gan ddeddfwriaeth Cymru
 33 Nid yw diddymiaid na dirymiaid yn adfer cyfraith a ddiddymwyd, a ddirymwyd neu a ddilëwyd eisoes
 34 Arbedion cyffredinol mewn cysylltiad â diddymiaid a dirymiaid
 35 Effaith ailddeddfu
 36 Cyfeirio at Ddeddf Cynulliad yn ôl ei henw byr ar ôl iddi gael ei diddymu
 37 Ystyr diddymu a dirymu yn y Rhan hon

RHAN 3**AMRYWIOL**

- 38 Pŵer i ddisodli disgrifiadau o ddyddiadau ac amseroedd yn neddfwriaeth Cymru
 39 Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurfiau gwahanol
 40 Cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y Cynulliad

RHAN 4**CYFFREDINOL**

- 41 Diwygiadau canlyniadol a diddymiaid
 42 Pŵer i wneud darpariaeth ychwanegol i roi effaith lawn i'r Ddeddf hon

Powers and duties

- 15 Continuity of powers and duties
- 16 Exercise of a power or duty that is not in force
- 17 Inclusion of sunset provisions and review provisions in subordinate legislation
- 18 Revoking, amending and re-enacting subordinate legislation
- 19 Amendment of subordinate legislation by an Assembly Act
- 20 Varying and withdrawing directions

References in Welsh legislation to legislation and other documents

- 21 References to portions of enactments, instruments and documents
- 22 Edition of Assembly Act or Assembly Measure referred to
- 23 Edition of Act of the Parliament of the United Kingdom referred to
- 24 References to direct EU legislation retained in domestic law after EU exit
- 25 References to enactments are to enactments as amended
- 26 References to EU instruments

Duplication of criminal offences

- 27 Duplicated offences

Application to the Crown

- 28 Application of Welsh legislation to the Crown

Coming into force of legislation

- 29 Time when Welsh legislation comes into force
- 30 Day on which an Assembly Act comes into force
- 31 Orders and regulations bringing Assembly Acts into force

Amendment, repeal and revocation of legislation

- 32 Amendments made to or by Welsh legislation
- 33 Repeals and revocations do not revive law previously repealed, revoked or abolished
- 34 General savings in connection with repeals and revocations
- 35 Effect of re-enactment
- 36 Referring to an Assembly Act by its short title after repeal
- 37 Meaning of repeal and revocation in this Part

PART 3

MISCELLANEOUS

- 38 Power to replace descriptions of dates and times in Welsh legislation
- 39 Power to make subordinate legislation in different forms
- 40 Combining subordinate legislation subject to different Assembly procedures

PART 4

GENERAL

- 41 Consequential amendments and repeals
- 42 Power to make additional provision to give full effect to this Act

43 Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon

44 Y Ddeddf hon yn dod i rym

45 Enw byr

Atodlen 1 – Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion

Atodlen 2 – Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

43 Regulations made under this Act

44 Coming into force of this Act

45 Short title

Schedule 1 – Definitions of words and expressions

Schedule 2 – Consequential amendments and repeals



Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hybu hygyrchedd cyfraith Cymru; i ddarparu ar gyfer dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru; ac at ddibenion cysylltiedig. [10 Medi 2019]

Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

RHAN 1

HYGYRCHEDD CYFRAITH CYMRU

1 Dyletswydd i gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adolygiad

- (1) Rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adolygiad.
- (2) Yn y Rhan hon, ystyr "hygyrchedd" cyfraith Cymru yw'r graddau y mae –
 - (a) ar gael yn hwylus i aelodau'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg;
 - (b) wedi ei chyhoeddi ar ei ffurf ddiweddaraf yn y ddwy iaith (sy'n dangos a yw deddfiadau mewn grym ac yn corffori unrhyw ddiwygiadau a wneir iddynt);
 - (c) wedi ei threfnu'n glir ac yn rhesymegol (o fewn deddfiadau yn ogystal â rhwng deddfiadau);
 - (d) yn hawdd ei deall ac yn sicr ei heffaith.
- (3) Yn y Rhan hon, ystyr "cyfraith Cymru" yw –
 - (a) Deddfau'r Cynulliad a Mesurau'r Cynulliad;
 - (b) is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddfau'r Cynulliad a Mesurau'r Cynulliad;
 - (c) unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38), i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru;



Legislation (Wales) Act 2019

An Act of the National Assembly for Wales to promote the accessibility of Welsh law; to provide for the interpretation and operation of Welsh legislation; and for connected purposes.

[10 September 2019]

Having been passed by the National Assembly for Wales and having received the assent of Her Majesty, it is enacted as follows:

PART 1

ACCESSIBILITY OF WELSH LAW

1 Duty to keep accessibility of Welsh law under review

- (1) The Counsel General must keep the accessibility of Welsh law under review.
- (2) In this Part, the “accessibility” of Welsh law means the extent to which it is—
 - (a) readily available to members of the public in Welsh and English;
 - (b) published in an up-to-date form in both languages (showing whether enactments are in force and incorporating any amendments made to them);
 - (c) clearly and logically organised (both within and between enactments);
 - (d) easy to understand and certain in its effect.
- (3) In this Part, “Welsh law” means—
 - (a) Assembly Acts and Assembly Measures;
 - (b) subordinate legislation made under Assembly Acts and Assembly Measures;
 - (c) any other subordinate legislation made by the Welsh Ministers or the National Assembly for Wales established by the Government of Wales Act 1998 (c. 38), so far as it applies in relation to Wales;

- (d) unrhyw ddeddfiad arall, neu unrhyw reol gyfreithiol arall, i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru ac y mae'n ymwneud â phwnc y gellid darparu ar ei gyfer mewn Deddf Cynulliad.

2 Rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol lunio rhaglen sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.
- (2) Rhaid llunio rhaglen ar gyfer pob un o dymhorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n dechrau ar ôl i'r adran hon ddod i rym.
- (3) Rhaid i'r rhaglen gynnwys gweithgareddau arfaethedig y bwriedir iddynt—
 - (a) cyfrannu at broses barhaus o gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru;
 - (b) cynnal ffurf cyfraith Cymru (wedi iddi gael ei chodeiddio);
 - (c) hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru;
 - (d) hwyluso defnydd o'r Gymraeg.
- (4) Caiff y rhaglen hefyd gynnwys gweithgareddau arfaethedig—
 - (a) y gellir eu cyflawni drwy gydweithio â Chomisiwn y Gyfraith (yn unol â Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 (p. 22)), neu
 - (b) o unrhyw fath arall y mae Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn ystyried ei fod yn briodol.
- (5) Rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol osod copi o'r rhaglen gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o fewn 6 mis i benodi Prif Weinidog ar ôl etholiad cyffredinol a gynhelir o dan Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
- (6) Caiff Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddiwygio'r rhaglen ar unrhyw adeg, ac os gwnânt hynny rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol osod copi o'r rhaglen ddiwygiedig gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
- (7) Rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol adrodd yn flynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y cynnydd a wneir o dan y rhaglen.
- (8) Yn is-adran (3), mae codeiddio cyfraith Cymru yn cynnwys—
 - (a) mabwysiadu strwythur ar gyfer cyfraith Cymru sy'n gwella ei hygyrchedd;
 - (b) trefnu a chyhoeddi cyfraith Cymru sydd wedi ei chydgrynhoi yn ôl y strwythur hwnnw.

RHAN 2

DEHONGLI A GWEITHREDU DEDDFWRIAETH CYMRU

Cymhwysu'r Rhan a'i heffaith

3 Deddfwriaeth y mae'r Rhan hon yn gymwys iddi

- (1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i—
 - (a) y Ddeddf hon;

- (d) any other enactment or rule of law, so far as it applies in relation to Wales and relates to subject matter which could be provided for in an Assembly Act.

2 Programme to improve accessibility of Welsh law

- (1) The Welsh Ministers and the Counsel General must prepare a programme setting out what they intend to do to improve the accessibility of Welsh law.
- (2) A programme must be prepared for each term of the National Assembly for Wales that begins after this section comes into force.
- (3) The programme must include proposed activities that are intended to—
 - (a) contribute to an ongoing process of consolidating and codifying Welsh law;
 - (b) maintain the form of Welsh law (once codified);
 - (c) promote awareness and understanding of Welsh law;
 - (d) facilitate use of the Welsh language.
- (4) The programme may also include proposed activities—
 - (a) that may be undertaken in collaboration with the Law Commission (in accordance with the Law Commissions Act 1965 (c. 22)), or
 - (b) of any other kind the Welsh Ministers and the Counsel General consider appropriate.
- (5) The Counsel General must lay a copy of the programme before the National Assembly within 6 months of the appointment of a First Minister after a general election held under Part 1 of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).
- (6) The Welsh Ministers and the Counsel General may at any time revise the programme, and if they do so the Counsel General must lay a copy of the revised programme before the National Assembly.
- (7) The Counsel General must report annually to the National Assembly on progress made under the programme.
- (8) In subsection (3), codifying Welsh law includes—
 - (a) adopting a structure for Welsh law that improves its accessibility;
 - (b) organising and publishing consolidated Welsh law according to that structure.

PART 2

INTERPRETATION AND OPERATION OF WELSH LEGISLATION

Application and effect of Part

3 Legislation to which this Part applies

- (1) This Part applies to—
 - (a) this Act;

- (b) Deddfau'r Cynulliad sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol ar y diwrnod y daw'r Rhan hon i rym yn llawn neu ar ôl y diwrnod y daw'r Rhan hon i rym yn llawn;
 - (c) is-offerynnau Cymreig a wneir ar y diwrnod hwnnw neu ar ôl y diwrnod hwnnw.
- (2) Ystyr "is-offeryn Cymreig" yw offeryn (pa un a yw'r offeryn hwnnw yn offeryn statudol ai peidio) nad yw ond yn cynnwys un neu ddau o'r canlynol—
- (a) is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad, pa un ai gan Weinidogion Cymru neu gan unrhyw berson arall;
 - (b) is-ddeddfwriaeth—
 - (i) a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir,
 - (ii) nas gwneir ond gan Weinidogion Cymru neu unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig arall (o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)), a
 - (iii) nad yw ond yn gymwys o ran Cymru.
- (3) Mae cyfeiriadau yng ngweddill y Rhan hon at Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig (oni ddarperir fel arall) yn gyfeiriadau at Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig y mae'r Rhan hon yn gymwys iddi neu iddo yn rhinwedd is-adran (1).

4 Effaith darpariaethau'r Rhan hon

- (1) Pan fo'r Rhan hon yn gymwys i Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, mae'r darpariaethau yn y Rhan hon yn cael effaith mewn perthynas â'r Ddeddf honno neu'r offeryn hwnnw, ac eithrio i'r graddau—
- (a) y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb, neu
 - (b) y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall.
- (2) Nid yw'r eithriad yn is-adran (1) yn gymwys i adran 5 (statws cyfartal testunau deddfwriaeth ddwyieithog).
- (3) Nid yw paragraff (b) o'r eithriad hwnnw yn gymwys i—
- (a) adran 10 (cyfeiriadau at amser o'r dydd);
 - (b) adran 28 (cymhwyso deddfwriaeth Cymru i'r Goron);
 - (c) adran 33 (nid yw diddymiaid na dirymiaid yn adfer cyfraith a ddiddymwyd, a ddirymwyd neu a ddilëwyd eisoes).

Deddfwriaeth ddwyieithog Cymru

5 Statws cyfartal y testunau Cymraeg a Saesneg

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Deddf Cynulliad yn cael ei deddfu, neu pan fo is-offeryn Cymreig yn cael ei wneud, yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- (2) Mae i'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg statws cyfartal at bob diben.

- (b) Assembly Acts that receive Royal Assent on or after the day on which this Part comes fully into force;
 - (c) Welsh subordinate instruments that are made on or after that day.
- (2) “Welsh subordinate instrument” means an instrument (whether or not that instrument is a statutory instrument) containing only one or both of the following –
- (a) subordinate legislation that is made under an Assembly Act or an Assembly Measure, whether by the Welsh Ministers or by any other person;
 - (b) subordinate legislation that –
 - (i) is made under an Act of the Parliament of the United Kingdom or retained direct EU legislation,
 - (ii) is made only by the Welsh Ministers or any other devolved Welsh authority (within the meaning given by section 157A of the Government of Wales Act 2006 (c. 32)), and
 - (iii) applies only in relation to Wales.
- (3) References in the rest of this Part to an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument are (unless otherwise provided) references to an Assembly Act or Welsh subordinate instrument to which this Part applies by virtue of subsection (1).

4 Effect of provisions in this Part

- (1) Where this Part applies to an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument, the provisions in this Part have effect in relation to the Act or instrument except so far as –
- (a) express provision is made to the contrary, or
 - (b) the context requires otherwise.
- (2) The exception in subsection (1) does not apply to section 5 (equal status of texts of bilingual legislation).
- (3) Paragraph (b) of that exception does not apply to –
- (a) section 10 (references to time of day);
 - (b) section 28 (application of Welsh legislation to the Crown);
 - (c) section 33 (repeals and revocations do not revive law previously repealed, revoked or abolished).

Bilingual Welsh legislation

5 Equal status of Welsh and English language texts

- (1) This section applies where an Assembly Act is enacted, or a Welsh subordinate instrument is made, in Welsh and English.
- (2) The Welsh language text and the English language text have equal status for all purposes.

Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn neddfwriaeth Cymru

6 Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion

- (1) Mae geiriau ac ymadroddion a restrir yn y Tabl yn Atodlen 1 i'w dehongli yn unol â'r Tabl hwnnw pan fônt yn ymddangos mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio Atodlen 1 er mwyn—
 - (a) mewnosod diffiniadau newydd o eiriau neu ymadroddion;
 - (b) dileu diffiniadau o eiriau neu ymadroddion;
 - (c) diwygio diffiniadau o eiriau neu ymadroddion.
- (3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) wneud darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed, a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu, yn dirymu neu'n addasu fel arall unrhyw ddeddfiad (pryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir).

7 Mae geiriau yn y ffurf unigol yn cynnwys y ffurf luosog ac fel arall

Mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig—

- (a) mae geiriau yn y ffurf unigol yn cynnwys y ffurf luosog;
- (b) mae geiriau yn y ffurf luosog yn cynnwys y ffurf unigol.

8 Nid yw geiriau sy'n dynodi rhywedd yn gyfyngedig i'r rhywedd hwnnw

Mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, nid yw geiriau sy'n dynodi personau o rywedd penodol i'w darllen fel pe baent yn gyfyngedig i bersonau o'r rhywedd hwnnw.

9 Amrywio geiriau ac ymadroddion oherwydd gramadeg etc.

Pan fo deddfiad yn rhoi ystyr i air neu ymadrodd mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, mae rhannau ymadrodd eraill a ffurfiau neu oleddfiadau gramadegol ar y gair neu'r ymadrodd i'w dehongli yn unol â'r ystyr hwnnw.

10 Cyfeiriadau at amser o'r dydd

Mae cyfeiriad at amser o'r dydd mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn gyfeiriad at amser safonol Greenwich; ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 3 o Ddeddf Amser Haf 1972 (p. 6) (pwyntiau o amser yn ystod amser haf).

11 Cyfeiriadau at y Sofren

Mae cyfeiriad at y Sofren mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig i'w ddarllen fel cyfeiriad at y Sofren ar y pryd.

12 Mesur pellter

Mae cyfeiriad at bellter mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn gyfeiriad at y pellter hwnnw wedi ei fesur mewn llinell syth ar blân llorweddol.

Meaning of words and expressions used in Welsh legislation

6 Definitions of words and expressions

- (1) Words and expressions listed in the Table in Schedule 1 are to be interpreted according to that Table where they appear in an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument.
- (2) The Welsh Ministers may by regulations amend Schedule 1 to—
 - (a) insert new definitions of words or expressions;
 - (b) remove definitions of words or expressions;
 - (c) amend definitions of words or expressions.
- (3) Regulations under subsection (2) may make supplementary, incidental, consequential, transitory, transitional or saving provision, which may include provision which amends, repeals, revokes or otherwise modifies any enactment (whenever enacted or made).

7 Words in the singular include the plural and vice versa

In an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument—

- (a) words in the singular include the plural;
- (b) words in the plural include the singular.

8 Words denoting a gender are not limited to that gender

In an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument, words denoting persons of a particular gender are not to be read as limited to persons of that gender.

9 Variations of a word or expression due to grammar etc.

Where a word or expression in an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument is given a meaning by an enactment, other parts of speech and grammatical forms or modifications of the word or expression are to be interpreted in accordance with that meaning.

10 References to time of day

A reference to the time of day in an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument is a reference to Greenwich mean time; but this is subject to section 3 of the Summer Time Act 1972 (c. 6) (points of time during the period of summer time).

11 References to the Sovereign

A reference to the Sovereign in an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument is to be read as a reference to the Sovereign for the time being.

12 Measurement of distance

A reference to a distance in an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument is a reference to that distance measured in a straight line on a horizontal plane.

*Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig***13 Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig**

- (1) Pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn awdurdodi person ("A") neu'n ei gwneud yn ofynnol i A gyflwyno dogfen drwy'r post i berson arall ("B"), mae A yn cyflwyno'r ddogfen os yw A yn cyfeirio'n briodol lythyr sy'n cynnwys y ddogfen, yn talu ymlaen llaw am ei bostio, ac yn ei bostio at B.
- (2) Pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn awdurdodi person ("A") neu'n ei gwneud yn ofynnol i A gyflwyno dogfen i berson arall ("B") yn electronig, mae A yn cyflwyno'r ddogfen—
 - (a) os yw A yn cyfeirio'n briodol gyfathrebiad electronig sy'n ffurfio'r ddogfen neu'n cynnwys y ddogfen, neu y mae'r ddogfen ynghlwm wrtho, ac yn ei anfon at B, a
 - (b) os yw'r ddogfen yn cael ei hanfon ar ffurf electronig y gall B ei chyrchu a'i chadw.
- (3) Mae'r adran hon yn gymwys pa un a yw'r Ddeddf Cynulliad neu'r is-offeryn Cymreig yn defnyddio'r gair "cyflwyno" neu unrhyw ymadrodd arall (megis "anfon" neu "rhoi") i gyfeirio at gyflwyno'r ddogfen.

14 Y diwrnod pan fernir bod dogfen wedi ei chyflwyno

Pan fo dogfen yn cael ei chyflwyno drwy'r post neu'n electronig o dan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, bernir bod y ddogfen wedi ei chyflwyno, oni phrofir i'r gwrthwyneb—

- (a) yn achos dogfen a gyflwynir drwy'r post, ar y diwrnod y byddai'r llythyr sy'n cynnwys y ddogfen yn cyrraedd yn nhrefn arferol y post;
- (b) yn achos dogfen a gyflwynir yn electronig, ar y diwrnod yr anfonir y cyfathrebiad electronig.

*Pwerau a dyletswyddau***15 Parhad pwerau a dyletswyddau**

- (1) Caniateir arfer pŵer a roddir gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig ar fwy nag un achlysur.
- (2) Mae dyletswydd a osodir gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn ddyletswydd barhaus a rhaid ei chyflawni yn ôl y gofyn.
- (3) Pan roddir pŵer gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig i ddeiliad swydd neu pan osodir dyletswydd ar ddeiliad swydd gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, mae i'w arfer neu i'w harfer gan ddeiliad y swydd ar y pryd.

16 Arfer pŵer neu ddyletswydd nad yw mewn grym

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo pŵer neu ddyletswydd yn cael ei roi neu ei gosod—
 - (a) gan ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad a ddaw i rym—
 - (i) ac eithrio drwy orchymyn neu reoliadau, a
 - (ii) mwy nag un diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol, neu

*Service of documents by post or electronically***13 Service of documents by post or electronically**

- (1) Where an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument authorises or requires a person (“A”) to serve a document by post on another person (“B”), A serves the document if A properly addresses, pre-pays and posts a letter containing the document to B.
- (2) Where an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument authorises or requires a person (“A”) to serve a document electronically on another person (“B”), A serves the document if—
 - (a) A properly addresses and sends to B an electronic communication consisting of or containing the document, or to which the document is attached, and
 - (b) the document is sent in an electronic form which is capable of being accessed and retained by B.
- (3) This section applies whether the Assembly Act or Welsh subordinate instrument uses the word “serve” or any other expression (such as “give” or “send”) to refer to the service of the document.

14 Day on which service is deemed to be effected

Where a document is served by post or electronically under an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument, service is deemed to be effected, unless the contrary is proved—

- (a) in the case of a document served by post, on the day on which the letter containing the document would arrive in the ordinary course of post;
- (b) in the case of a document served electronically, on the day on which the electronic communication is sent.

*Powers and duties***15 Continuity of powers and duties**

- (1) A power conferred by an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument may be exercised on more than one occasion.
- (2) A duty imposed by an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument is continuous and must be performed as occasion requires.
- (3) Where a power is conferred or a duty is imposed by an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument on the holder of an office, it is to be exercised by the holder for the time being of the office.

16 Exercise of a power or duty that is not in force

- (1) This section applies where a power or duty is conferred or imposed—
 - (a) by a provision in an Assembly Act which comes into force—
 - (i) other than by order or regulations, and
 - (ii) more than one day after the day on which the Act receives Royal Assent, or

- (b) gan ddarpariaeth mewn is-offeryn Cymreig na ddaw i rym unwaith y caiff yr offeryn ei wneud.
- (2) Caniateir arfer y pŵer neu'r ddyletswydd (a chaiff unrhyw offeryn a wneir o dan y pŵer neu'r ddyletswydd ddod i rym) yn ystod y cyfnod –
 - (a) sy'n dechrau pan gaiff y Ddeddf Cynulliad y Cydsyniad Brenhinol neu pan wneir yr is-offeryn Cymreig, a
 - (b) sy'n gorffen pan ddaw'r ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer neu'n gosod y ddyletswydd i rym.
- (3) Ond yn ystod y cyfnod hwnnw ni chaniateir arfer y pŵer neu'r ddyletswydd ond i'r graddau y mae'n angenrheidiol neu'n hwylus at ddiben rhoi effaith lawn –
 - (a) i'r Ddeddf Cynulliad neu i'r is-offeryn Cymreig sy'n rhoi'r pŵer neu'n gosod y ddyletswydd, neu
 - (b) i ddarpariaeth yn y Ddeddf honno neu'r offeryn hwnnw, ar yr adeg neu ar ôl yr adeg y daw'r Ddeddf, yr offeryn neu'r ddarpariaeth i rym.
- (4) Pan fo darpariaeth mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig nad yw mewn grym –
 - (a) yn gysylltiedig â phŵer neu ddyletswydd, neu'n atodol i bŵer neu ddyletswydd, a arferir yn unol â'r adran hon, a
 - (b) yn dod i rym ac eithrio drwy orchymyn neu reoliadau, mae'r ddarpariaeth honno i'w thrin fel pe bai mewn grym i'r graddau y mae'n angenrheidiol i arfer y pŵer neu'r ddyletswydd yn unol â'r adran hon.
- (5) Mae arfer pŵer neu ddyletswydd yn unol â'r adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw amodau neu gyfyngiadau a osodir gan y Ddeddf Cynulliad neu'r is-offeryn Cymreig sy'n rhoi'r pŵer neu'n gosod y ddyletswydd (pa un a yw'r ddarpariaeth sy'n gosod yr amod neu'r cyfyngiad mewn grym ai peidio).

17 Cynnwys darpariaethau machlud a darpariaethau adolygu mewn is-ddeddfwriaeth

- (1) Caniateir arfer pŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth a roddir neu a osodir gan Ddeddf Cynulliad fel bod yr is-ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaeth adolygu neu ddarpariaeth fachlud (neu'r ddwy).
- (2) Yn yr adran hon –
 - (a) ystyr “darpariaeth adolygu” yw darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person a wnaeth yr is-ddeddfwriaeth adolygu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth honno, neu effeithiolrwydd unrhyw is-offeryn Cymreig y mae'n ei ddiwygio, o fewn cyfnod penodedig neu ar ddiwedd cyfnod penodedig;
 - (b) ystyr “darpariaeth fachlud” yw darpariaeth i'r is-ddeddfwriaeth, neu unrhyw is-offeryn Cymreig y mae'n ei ddiwygio, beidio â chael effaith ar ddiwedd diwrnod penodedig neu gyfnod penodedig;
 - (c) ystyr “penodedig” yw wedi ei bennu yn yr is-ddeddfwriaeth.
- (3) Caiff darpariaeth adolygu, ymhlith pethau eraill, wneud adolygiad yn ofynnol i ystyried a yw amcanion yr is-ddeddfwriaeth y mae'n gymwys iddi yn dal i fod yn briodol ac, os felly, a ellid eu cyflawni mewn ffordd arall.

- (b) by a provision in a Welsh subordinate instrument which does not come into force immediately on the instrument being made.
- (2) The power or duty may be exercised (and any instrument made under the power or duty may come into force) during the period—
 - (a) beginning when the Assembly Act receives Royal Assent or the Welsh subordinate instrument is made, and
 - (b) ending when the provision conferring the power or imposing the duty comes into force.
- (3) But during that period the power or duty may be exercised only so far as is necessary or expedient for the purpose of giving full effect to—
 - (a) the Assembly Act or Welsh subordinate instrument conferring or imposing the power or duty, or
 - (b) a provision in that Act or instrument,at or after the time when the Act, instrument or provision comes into force.
- (4) Where a provision in an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument which is not in force—
 - (a) is incidental or supplementary to a power or duty exercised in accordance with this section, and
 - (b) comes into force other than by order or regulations,that provision is to be treated as being in force so far as is necessary for the exercise of the power or duty in accordance with this section.
- (5) The exercise of a power or duty in accordance with this section is subject to any conditions or limitations imposed by the Assembly Act or Welsh subordinate instrument conferring or imposing the power or duty (whether or not the provision imposing the condition or limitation is in force).

17 Inclusion of sunset provisions and review provisions in subordinate legislation

- (1) A power or duty to make subordinate legislation conferred or imposed by an Assembly Act may be exercised so that the subordinate legislation contains a review provision or a sunset provision (or both).
- (2) In this section—
 - (a) “review provision” means a provision requiring the person who made the subordinate legislation to review the effectiveness of that legislation, or of any Welsh subordinate instrument it amends, within a specified period or at the end of a specified period;
 - (b) “sunset provision” means a provision for the subordinate legislation, or any Welsh subordinate instrument it amends, to cease to have effect at the end of a specified day or specified period;
 - (c) “specified” means specified in the subordinate legislation.
- (3) A review provision may, among other things, require a review of whether the objectives of the subordinate legislation to which it applies remain appropriate and, if so, whether they could be achieved in another way.

- (4) Caiff yr is-ddeddfwriaeth sy'n cynnwys y ddarpariaeth adolygu neu'r ddarpariaeth fachlud ddarparu i'r ddarpariaeth fod yn gymwys yn gyffredinol neu'n unig mewn perthynas â darpariaethau penodedig yr is-ddeddfwriaeth neu achosion neu amgylchiadau penodedig.
- (5) Caniateir arfer y pŵer i wneud y ddarpariaeth adolygu neu'r ddarpariaeth fachlud i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth adolygu neu'r ddarpariaeth fachlud.

18 Dirymu, diwygio ac ailddeddfu is-ddeddfwriaeth

- (1) Caniateir arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth a roddir gan Ddeddf Cynulliad i ddiwygio, dirymu neu ailddeddfu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y pŵer.
- (2) Mae dyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth a osodir gan Ddeddf Cynulliad yn cynnwys pŵer (sy'n arferadwy yn yr un ffordd ac yn ddarostyngedig i'r un amodau neu gyfyngiadau â'r ddyletswydd) y caniateir ei arfer i ddiwygio, dirymu a disodli, neu ailddeddfu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y ddyletswydd (neu o dan y pŵer a ddarperir gan yr is-adran hon).

19 Diwygio is-ddeddfwriaeth gan Ddeddf Cynulliad

Nid yw diwygio na dirymu is-ddeddfwriaeth gan Ddeddf Cynulliad yn cyfyngu nac yn effeithio fel arall ar y pŵer neu'r ddyletswydd y gwnaed yr is-ddeddfwriaeth odano neu odani.

20 Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl

- (1) Caniateir arfer pŵer a roddir gan Ddeddf Cynulliad neu gan is-offeryn Cymreig i roi cyfarwyddydau i amrywio unrhyw gyfarwyddydau neu dynnu'n ôl unrhyw gyfarwyddydau a roddir o dan y pŵer.
- (2) Mae dyletswydd i roi cyfarwyddydau a osodir gan Ddeddf Cynulliad neu gan is-offeryn Cymreig yn cynnwys pŵer (sy'n arferadwy yn yr un ffordd ac yn ddarostyngedig i'r un amodau neu gyfyngiadau â'r ddyletswydd) i amrywio, neu dynnu'n ôl a disodli, unrhyw gyfarwyddydau a roddir o dan y ddyletswydd.

Cyfeiriadau yn neddfwriaeth Cymru at ddeddfwriaeth a dogfennau eraill

21 Cyfeiriadau at raniadau o ddeddfiadau, offerynnau a dogfennau

- (1) Pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig –
 - (a) yn disgrifio rhaniad o unrhyw ddeddfiad, offeryn neu ddogfen neu'n cyfeirio at raniad o unrhyw ddeddfiad, offeryn neu ddogfen, a
 - (b) yn gwneud hynny drwy gyfeirio at eiriau, adrannau neu rannau eraill y mae'r rhaniad yn ymestyn oddi wrthynt neu atynt (neu oddi wrthynt ac atynt),
 mae'r rhaniad yn cynnwys y geiriau, yr adrannau neu'r rhannau eraill y cyfeirir atynt.
- (2) Yn is-adran (1), mae "deddfiad" yn cynnwys deddfiad sy'n un o'r canlynol neu sydd wedi ei gynnwys mewn un o'r canlynol –
 - (a) Deddf gan Senedd yr Alban;

- (4) The subordinate legislation containing the review provision or sunset provision may provide that the provision applies generally or only in relation to specified provisions of subordinate legislation or specified cases or circumstances.
- (5) The power to make the review provision or sunset provision may be exercised to make supplementary, incidental, consequential, transitory, transitional or saving provision in connection with the review provision or sunset provision.

18 Revoking, amending and re-enacting subordinate legislation

- (1) A power to make subordinate legislation conferred by an Assembly Act may be exercised to amend, revoke or re-enact any subordinate legislation made under the power.
- (2) A duty to make subordinate legislation imposed by an Assembly Act includes a power (exercisable in the same way and subject to the same conditions or limitations as the duty) which may be exercised to amend, revoke and replace, or re-enact any subordinate legislation made under the duty (or under the power provided by this subsection).

19 Amendment of subordinate legislation by an Assembly Act

The amendment or revocation of subordinate legislation by an Assembly Act does not limit or otherwise affect the power or duty under which the subordinate legislation was made.

20 Varying and withdrawing directions

- (1) A power to give directions conferred by an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument may be exercised to vary or withdraw any directions given under the power.
- (2) A duty to give directions imposed by an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument includes a power (exercisable in the same way and subject to the same conditions or limitations as the duty) to vary, or withdraw and replace, any directions given under the duty.

References in Welsh legislation to legislation and other documents

21 References to portions of enactments, instruments and documents

- (1) Where an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument –
 - (a) describes or refers to a portion of any enactment, instrument or document, and
 - (b) does so by referring to words, sections or other parts from or to which (or from and to which) the portion extends,the portion includes the words, sections or other parts referred to.
- (2) In subsection (1), “enactment” includes an enactment which is, or is contained in, any of the following –
 - (a) an Act of the Scottish Parliament;

- (b) deddfwriaeth Gogledd Iwerddon (o fewn yr ystyr a roddir i “Northern Ireland legislation” gan adran 24(5) o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30));
- (c) offeryn a wneir o dan ddeddfwriaeth a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b).

22 Argraffiadau o Ddeddfau'r Cynulliad neu o Fesurau'r Cynulliad y cyfeirir atynt

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn cyfeirio at Ddeddf Cynulliad (gan gynnwys Deddf Cynulliad nad yw'r Rhan hon yn gymwys iddi) neu Fesur Cynulliad.
- (2) Mae'r cyfeiriad yn gyfeiriad at y copi ardystiedig o'r Ddeddf, neu'r Mesur fel y'i cymeradwywyd, a gyhoeddir –
 - (a) gan Argraffydd y Frenhines, neu
 - (b) o dan oruchwyliaeth neu awdurdod Llyfrfa Ei Mawrhydi.

23 Argraffiadau o Ddeddfau gan Senedd y Deyrnas Unedig y cyfeirir atynt

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn cyfeirio at Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig (pa un yn ôl ei henw byr ynteu yn ôl blwyddyn, statud, sesiwn neu bennod).
- (2) Mae'r cyfeiriad yn gyfeiriad at y Ddeddf fel y'i deddfwyd a gyhoeddir –
 - (a) gan Argraffydd y Frenhines, neu
 - (b) o dan oruchwyliaeth neu awdurdod Llyfrfa Ei Mawrhydi.
- (3) Ond –
 - (a) pan fo'r cyfeiriad yn gyfeiriad at Ddeddf sydd wedi ei chynnwys mewn argraffiad diwygiedig o'r statudau a argreffir drwy awdurdod, mae'r cyfeiriad yn gyfeiriad at yr argraffiad hwnnw;
 - (b) pan na fo paragraff (a) yn gymwys a phan fo'r cyfeiriad yn gyfeiriad at Ddeddf sydd wedi ei chynnwys yn yr argraffiad a luniwyd o dan gyfarwyddyd y Comisiwn Cofnodion, mae'r cyfeiriad yn gyfeiriad at yr argraffiad hwnnw.

24 Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir mewn cyfraith ddomestig ar ôl ymadael â'r UE

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo –
 - (a) Deddf Cynulliad yn cael y Cydsyniad Brenhinol, neu is-offeryn Cymreig yn cael ei wneud, ar neu ar ôl y diwrnod ymadael, a
 - (b) y Ddeddf neu'r offeryn yn cyfeirio at unrhyw reoliad gan yr UE, penderfyniad gan yr UE, deddfwriaeth drydyddol gan yr UE neu ddarpariaeth yng nghytundeb yr AEE sy'n ffurfio rhan o gyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) (cynnwys deddfwriaeth uniongyrchol UE).
- (2) Mae'r cyfeiriad yn gyfeiriad at reoliad gan yr UE, penderfyniad gan yr UE, deddfwriaeth drydyddol gan yr UE neu ddarpariaeth yng nghytundeb yr AEE fel y mae'n ffurfio rhan o gyfraith ddomestig (ac nid fel y mae'n ffurfio rhan o gyfraith yr UE).

- (b) Northern Ireland legislation (within the meaning given by section 24(5) of the Interpretation Act 1978 (c. 30));
- (c) an instrument made under legislation mentioned in paragraph (a) or (b).

22 Edition of Assembly Act or Assembly Measure referred to

- (1) This section applies where an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument refers to an Assembly Act (including an Assembly Act to which this Part does not apply) or an Assembly Measure.
- (2) The reference is a reference to the certified copy of the Act, or to the Measure as approved, which is published –
 - (a) by the Queen’s Printer, or
 - (b) under the superintendence or authority of Her Majesty’s Stationery Office.

23 Edition of Act of the Parliament of the United Kingdom referred to

- (1) This section applies where an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument refers to an Act of the Parliament of the United Kingdom (whether by its short title or by year, statute, session or chapter).
- (2) The reference is a reference to the Act as enacted which is published –
 - (a) by the Queen’s Printer, or
 - (b) under the superintendence or authority of Her Majesty’s Stationery Office.
- (3) But –
 - (a) where the reference is to an Act included in a revised edition of the statutes printed by authority, the reference is a reference to that edition;
 - (b) where paragraph (a) does not apply and the reference is to an Act included in the edition prepared under the direction of the Record Commission, the reference is a reference to that edition.

24 References to direct EU legislation retained in domestic law after EU exit

- (1) This section applies where –
 - (a) an Assembly Act receives Royal Assent, or a Welsh subordinate instrument is made, on or after exit day, and
 - (b) the Act or instrument refers to any EU regulation, EU decision, EU tertiary legislation or provision of the EEA agreement that forms part of domestic law by virtue of section 3 of the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) (incorporation of direct EU legislation).
- (2) The reference is a reference to the EU regulation, EU decision, EU tertiary legislation or provision of the EEA agreement as it forms part of domestic law (and not as it forms part of EU law).

- (3) Yn yr adran hon, mae i'r ymadroddion Cymraeg a ganlyn yr un ystyron ag a roddir i'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn adran 20(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018—

“cyfraith ddomestig” (“*domestic law*”);

“deddfwriaeth drydyddol gan yr UE” (“*EU tertiary legislation*”);

“penderfyniad gan yr UE” (“*EU decision*”);

“rheoliad gan yr UE” (“*EU regulation*”).

25 Mae cyfeiriadau at ddeddfiadau yn gyfeiriadau at ddeddfiadau fel y'u diwygiwyd

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn cyfeirio at ddeddfiad (“A”), a

(b) pan fo A yn cael ei ddiwygio, ei estyn neu ei gymhwyso gan ddeddfiad (“B”) ar unrhyw adeg (pa un ai cyn, ar neu ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf Cynulliad y Cydsyniad Brenhinol neu y caiff yr is-offeryn Cymreig ei wneud).

- (2) Mae'r cyfeiriad at A yn gyfeiriad at A fel y'i diwygiwyd, y'i hestynnwyd neu y'i cymhwyswyd gan B.

- (3) Nid oes dim yn adrannau 22 i 24 yn cyfyngu ar weithrediad yr adran hon.

- (4) Yn is-adran (1), mae “deddfiad” yn cynnwys deddfiad sy'n un o'r canlynol neu sydd wedi ei gynnwys mewn un o'r canlynol—

(a) Deddf gan Senedd yr Alban;

(b) deddfwriaeth Gogledd Iwerddon (o fewn yr ystyr a roddir i “Northern Ireland legislation” gan adran 24(5) o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30));

(c) offeryn a wneir o dan ddeddfwriaeth a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b).

26 Cyfeiriadau at offerynnau'r UE

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn cyfeirio at offeryn UE (“A”), a

(b) pan fo A wedi cael ei ddiwygio, ei estyn neu ei gymhwyso gan offeryn arall gan yr UE (“B”) cyn y diwrnod y caiff y Ddeddf Cynulliad y Cydsyniad Brenhinol neu y caiff yr is-offeryn Cymreig ei wneud.

- (2) Mae'r cyfeiriad at A yn gyfeiriad at A fel y'i diwygiwyd, y'i hestynnwyd neu y'i cymhwyswyd gan B.

- (3) Gweler hefyd reoliad 2 o Reoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau Canlyniadol a Diddymiadau a Dirymiadau) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/628) ar gyfer darpariaeth am effaith cyfeiriadau penodol sy'n bodoli cyn y diwrnod ymadael ar y diwrnod ymadael neu ar ôl y diwrnod ymadael.

Dyblygu troseddau

27 Troseddau dyblyg

- (1) Pan fo gweithred neu anweithred yn drosedd o dan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig (“A”) a hefyd yn drosedd—

- (3) In this section, the following expressions have the meanings given by section 20(1) of the European Union (Withdrawal) Act 2018—
- “domestic law”;
 - “EU decision”;
 - “EU regulation”;
 - “EU tertiary legislation”.

25 References to enactments are to enactments as amended

- (1) This section applies where—
- (a) an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument refers to an enactment (“A”), and
 - (b) at any time (whether before, on or after the day on which the Assembly Act receives Royal Assent or the Welsh subordinate instrument is made) A is amended, extended or applied by an enactment (“B”).
- (2) The reference to A is a reference to A as amended, extended or applied by B.
- (3) Nothing in sections 22 to 24 limits the operation of this section.
- (4) In subsection (1), “enactment” includes an enactment which is, or is contained in, any of the following—
- (a) an Act of the Scottish Parliament;
 - (b) Northern Ireland legislation (within the meaning given by section 24(5) of the Interpretation Act 1978 (c. 30));
 - (c) an instrument made under legislation mentioned in paragraph (a) or (b).

26 References to EU instruments

- (1) This section applies where—
- (a) an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument refers to an EU instrument (“A”), and
 - (b) before the day on which the Assembly Act receives Royal Assent or the Welsh subordinate instrument is made, A has been amended, extended or applied by another EU instrument (“B”).
- (2) The reference to A is a reference to A as amended, extended or applied by B.
- (3) See also regulation 2 of the European Union (Withdrawal) Act 2018 (Consequential Modifications and Repeals and Revocations) (EU Exit) Regulations 2019 (S.I. 2019/628) for provision about the effect on or after exit day of certain references which exist before exit day.

Duplication of criminal offences

27 Duplicated offences

- (1) Where an act or omission is an offence under an Assembly Act or Welsh subordinate instrument (“A”) and is also an offence—

- (a) o dan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig ac eithrio A,
- (b) yn ôl y gyfraith gyffredin, neu
- (c) o dan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig ac eithrio A ac yn ôl y gyfraith gyffredin,

mae person yn agored i'w erlyn a'i gosbi o dan y naill neu'r llall neu unrhyw un o'r Deddfau neu'r offerynnau hynny neu yn ôl y gyfraith gyffredin, ond ni ellir ei gosbi fwy nag unwaith am yr un drosedd.

- (2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys os yw'r weithred neu'r anweithred hefyd yn drosedd o dan unrhyw ddeddfwriaeth y mae adran 18 o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30) yn gymwys iddi (ond mae'r adran honno yn gwneud darpariaeth gyfatebol mewn perthynas â gweithred neu anweithred o'r fath).

Cymhwyso i'r Goron

28 Cymhwyso deddfwriaeth Cymru i'r Goron

- (1) Mae Deddf Cynulliad yn rhwymo'r Goron.
- (2) Mae is-offeryn Cymreig yn rhwymo'r Goron i'r graddau y mae wedi ei wneud o dan ddeddfiad sy'n rhwymo'r Goron neu'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth sy'n rhwymo'r Goron.
- (3) Nid yw Deddf Cynulliad nac is-offeryn Cymreig yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd, ond mae'n gymwys i bersonau sy'n gwasanaethu'r Goron fel y mae'n gymwys i bersonau eraill.

Deddfwriaeth yn dod i rym

29 Yr amser pan ddaw deddfwriaeth Cymru i rym

Pan fo –

- (a) Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, neu
- (b) darpariaeth mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig,

yn dod i rym ar ddiwrnod y darperir ar ei gyfer mewn deddfiad, daw'r Ddeddf, yr offeryn neu'r ddarpariaeth i rym ar ddechrau'r diwrnod hwnnw.

30 Y diwrnod y daw Deddf Cynulliad i rym

Pan na fo darpariaeth mewn deddfiad bod Deddf Cynulliad neu ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad yn dod i rym, daw'r Ddeddf neu'r ddarpariaeth i rym ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.

31 Gorchmynion a rheoliadau sy'n dwyn Deddfau'r Cynulliad i rym

Pan fo Deddf Cynulliad yn darparu i orchymyn neu reoliadau benodi –

- (a) y diwrnod y daw'r Ddeddf i rym, neu
- (b) y diwrnod y daw darpariaeth yn y Ddeddf i rym,

caiff y gorchymyn neu'r rheoliadau benodi diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.

- (a) under an Assembly Act or Welsh subordinate instrument other than A,
- (b) at common law, or
- (c) under an Assembly Act or Welsh subordinate instrument other than A and at common law,

a person is liable to be prosecuted and punished under either or any of those Acts or instruments or at common law, but cannot be punished more than once for the same offence.

- (2) Subsection (1) does not apply if the act or omission is also an offence under any legislation to which section 18 of the Interpretation Act 1978 (c. 30) applies (but that section makes corresponding provision in relation to such an act or omission).

Application to the Crown

28 Application of Welsh legislation to the Crown

- (1) An Assembly Act binds the Crown.
- (2) A Welsh subordinate instrument binds the Crown so far as it is made under an enactment which binds the Crown or confers a power to make provision binding the Crown.
- (3) An Assembly Act or a Welsh subordinate instrument does not make the Crown criminally liable, but it applies to persons in the service of the Crown as it applies to other persons.

Coming into force of legislation

29 Time when Welsh legislation comes into force

Where –

- (a) an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument, or
- (b) a provision in an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument,

comes into force on a day provided for in an enactment, the Act, instrument or provision comes into force at the beginning of that day.

30 Day on which an Assembly Act comes into force

Where the coming into force of an Assembly Act, or of a provision in an Assembly Act, is not provided for in an enactment, the Act or provision comes into force at the beginning of the day after the day on which the Act receives Royal Assent.

31 Orders and regulations bringing Assembly Acts into force

Where an Assembly Act provides for an order or regulations to appoint –

- (a) the day on which the Act comes into force, or
- (b) the day on which a provision in the Act comes into force,

the order or regulations may appoint different days for different purposes.

*Diwygio, diddymu a dirymu deddfwriaeth***32 Diwygiadau a wneir i ddeddfwriaeth Cymru neu gan ddeddfwriaeth Cymru**

- (1) Pan fo deddfiad yn diwygio Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig drwy fewnosod neu amnewid geiriau neu ddeunydd arall, mae'r geiriau neu'r deunydd yn cael effaith fel rhan o'r Ddeddf honno neu'r offeryn hwnnw.
- (2) Pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn diwygio deddfiad drwy fewnosod neu amnewid geiriau neu ddeunydd arall, mae'r geiriau neu'r deunydd yn cael effaith fel rhan o'r deddfiad hwnnw.
- (3) Gweler hefyd adran 23ZA o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30) ar gyfer darpariaeth ynghylch cymhwyso'r Ddeddf honno i ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig (neu gan ddeddfwriaeth benodol arall).

33 Nid yw diddymiadau na dirymiadau yn adfer cyfraith a ddiddymwyd, a ddirymwyd neu a ddilëwyd eisoes

Pan fo—

- (a) Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn diddymu neu'n dirymu deddfiad ("A"), a
- (b) A eisoes wedi diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad arall ("B") neu wedi dileu unrhyw rheol gyfreithiol arall ("C"),

nid yw diddymiad neu ddirymiad A yn adfer B neu C.

34 Arbedion cyffredinol mewn cysylltiad â diddymiadau a dirymiadau

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn diddymu neu'n dirymu deddfiad.
- (2) Nid yw'r diddymiad neu'r dirymiad—
 - (a) yn adfer unrhyw beth nad yw mewn grym neu mewn bod ar yr adeg pan yw'r diddymiad neu'r dirymiad yn cymryd effaith;
 - (b) yn effeithio ar weithrediad blaenorol y deddfiad neu unrhyw beth a wneir neu a oddefir o dan y deddfiad.
- (3) Nid yw'r diddymiad neu'r dirymiad ychwaith yn effeithio ar—
 - (a) unrhyw hawl, braint, rhwymedigaeth neu atebolrwydd a geir, a gronnir neu yr eir iddi neu iddo o dan y deddfiad;
 - (b) unrhyw gosb, fforffediad neu gosbedigaeth a osodir mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd a gyflawnir o dan y deddfiad;
 - (c) unrhyw ymchwiliad, achos cyfreithiol neu rwymedi mewn cysylltiad ag unrhyw hawl, braint, rhwymedigaeth, atebolrwydd, cosb, fforffediad neu gosbedigaeth o'r fath,

a chaniateir cychwyn, parhau neu orfodi unrhyw ymchwiliad, achos cyfreithiol neu rwymedi o'r fath, a gosod unrhyw gosb, fforffediad neu gosbedigaeth o'r fath, fel pe na bai'r diddymiad neu'r dirymiad wedi digwydd.

*Amendment, repeal and revocation of legislation***32 Amendments made to or by Welsh legislation**

- (1) Where an enactment amends an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument by inserting or substituting words or other material, the words or material have effect as part of that Act or instrument.
- (2) Where an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument amends an enactment by inserting or substituting words or other material, the words or material have effect as part of that enactment.
- (3) See also section 23ZA of the Interpretation Act 1978 (c. 30) for provision about the application of that Act to retained direct EU legislation that is amended by an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument (or by certain other legislation).

33 Repeals and revocations do not revive law previously repealed, revoked or abolished

Where –

- (a) an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument repeals or revokes an enactment (“A”), and
- (b) A previously repealed or revoked any other enactment (“B”) or abolished any other rule of law (“C”),

the repeal or revocation of A does not revive B or C.

34 General savings in connection with repeals and revocations

- (1) This section applies where an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument repeals or revokes an enactment.
- (2) The repeal or revocation does not –
 - (a) revive anything that is not in force or existing at the time when the repeal or revocation takes effect;
 - (b) affect the previous operation of the enactment or anything done or suffered under the enactment.
- (3) The repeal or revocation also does not affect –
 - (a) any right, privilege, obligation or liability acquired, accrued or incurred under the enactment;
 - (b) any penalty, forfeiture or punishment incurred in respect of any offence committed under the enactment;
 - (c) any investigation, legal proceeding or remedy in respect of any such right, privilege, obligation, liability, penalty, forfeiture or punishment,

and any such investigation, legal proceeding or remedy may be instituted, continued or enforced, and any such penalty, forfeiture or punishment may be imposed, as if the repeal or revocation had not occurred.

35 Effaith ailddeddfu

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo deddfiad ("A")—
 - (a) yn cael ei ddiddymu neu ei ddirymu gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, a
 - (b) yn cael ei ailddeddfu (gydag addasiadau neu hebddynt) gan ddeddfiad ("B") sy'n Ddeddf Cynulliad neu'n is-offeryn Cymreig neu'n ddeddfiad sydd wedi ei gynnwys mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig.
- (2) Mae cyfeiriad at A mewn unrhyw ddeddfiad, offeryn neu ddogfen i'w ddarllen fel (neu fel pe bai'n cynnwys) cyfeiriad at B.
- (3) I'r graddau y gallasai unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan A neu sy'n cael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan A gael ei gwneud o dan B, mae i gael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan B.
- (4) I'r graddau y gallasai unrhyw beth a wneir neu sy'n cael effaith fel pe bai wedi ei wneud o dan A gael ei wneud o dan B, mae i gael effaith fel pe bai wedi ei wneud o dan B.

36 Cyfeirio at Ddeddf Cynulliad yn ôl ei henw byr ar ôl iddi gael ei diddymu

Caniateir parhau i gyfeirio at Ddeddf Cynulliad yn ôl yr enw byr a roddir iddi gan ddeddfiad er i'r deddfiad hwnnw gael ei ddiddymu.

37 Ystyr diddymu a dirymu yn y Rhan hon

- (1) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriadau at ddiddymu neu ddirymu deddfiad neu ddileu rheol gyfreithiol yn cynnwys—
 - (a) amnewid unrhyw beth am y deddfiad neu'r rheol (neu unrhyw ran ohono neu ohoni);
 - (b) cyfyngu ar gymhwysiad neu effaith y deddfiad neu'r rheol;
 - (c) darparu i'r deddfiad neu'r rheol beidio â chael effaith.
- (2) At ddibenion adrannau 34 i 36 (ond nid adran 33)—
 - (a) pan ddaw Deddf dros dro gan y Cynulliad i ben, mae hyn i'w drin fel pe bai'r Ddeddf wedi ei diddymu gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig;
 - (b) pan ddaw is-offeryn Cymreig dros dro i ben, mae hyn i'w drin fel pe bai'r offeryn wedi ei ddirymu gan Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig.

RHAN 3**AMRYWIOL****38 Pŵer i ddisodli disgrifiadau o ddyddiadau ac amseroedd yn neddfwriaeth Cymru**

- (1) Pan fo darpariaeth mewn unrhyw ddeddfwriaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi yn disgrifio dyddiad neu amser drwy gyfeirio at ddyfodiad deddfiad i rym neu unrhyw ddigwyddiad arall, caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r ddarpariaeth drwy reoliadau fel ei bod yn cyfeirio at y gwir ddyddiad neu amser (unwaith y bydd yn hysbys).
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) hefyd—

35 Effect of re-enactment

- (1) This section applies where an enactment (“A”) is—
 - (a) repealed or revoked by an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument, and
 - (b) re-enacted (with or without modification) by an enactment (“B”) which is, or is contained in, an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument.
- (2) A reference to A in any enactment, instrument or document is to be read as (or as including) a reference to B.
- (3) So far as any subordinate legislation made under A or having effect as if it were made under A could have been made under B, it is to have effect as if made under B.
- (4) So far as anything done or having effect as if it were done under A could have been done under B, it is to have effect as if done under B.

36 Referring to an Assembly Act by its short title after repeal

An Assembly Act may continue to be referred to by the short title conferred on it by an enactment despite the repeal of that enactment.

37 Meaning of repeal and revocation in this Part

- (1) In this Part, references to repealing or revoking an enactment or abolishing a rule of law include—
 - (a) substituting anything for the enactment or rule (or for any part of it);
 - (b) limiting the application or effect of the enactment or rule;
 - (c) providing for the enactment or rule to cease to have effect.
- (2) For the purposes of sections 34 to 36 (but not section 33)—
 - (a) the expiry of a temporary Assembly Act is to be treated as a repeal of the Act by an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument;
 - (b) the expiry of a temporary Welsh subordinate instrument is to be treated as a revocation of the instrument by an Assembly Act or a Welsh subordinate instrument.

PART 3

MISCELLANEOUS

38 Power to replace descriptions of dates and times in Welsh legislation

- (1) Where a provision in any legislation to which this section applies describes a date or time by reference to the coming into force of an enactment or the occurrence of any other event, the Welsh Ministers may by regulations amend the provision so that it refers to the actual date or time (once known).
- (2) Regulations under subsection (1) may also—

- (a) diwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn cynnwys esboniad o'r dyddiad neu'r amser y maent yn ei fewnosod;
 - (b) gwneud diwygiad canlyniadol sy'n diwygio, yn diddymu, neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad.
- (3) Mae'r adran hon yn gymwys i'r ddeddfwriaeth a ganlyn (pryd bynnag y'i deddfir neu i'i gwneir) –
- (a) Deddfau'r Cynulliad a Mesurau'r Cynulliad;
 - (b) is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddfau'r Cynulliad a Mesurau'r Cynulliad;
 - (c) unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) nad yw ond yn gymwys o ran Cymru;
 - (d) unrhyw ddeddfiad arall, i'r graddau y caiff ei ddiwygio gan ddeddfwriaeth a grybwyllir ym mharagraff (a), (b) neu (c).

39 Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurfiau gwahanol

- (1) Pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau, rheolau neu orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, cânt arfer y pŵer neu'r ddyletswydd drwy wneud yr is-ddeddfwriaeth ar unrhyw un o'r ffurfiau eraill hynny drwy offeryn statudol.
- (2) Nid yw hyn yn effeithio ar y weithdrefn ar gyfer gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys yr is-ddeddfwriaeth.
- (3) Mae cyfeiriad mewn unrhyw ddeddfiad, offeryn neu ddogfen at reoliadau, rheolau neu orchymyn a wneir o dan y pŵer neu'r ddyletswydd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir odano neu odani mewn unrhyw ffurf arall drwy ddibynnu ar is-adran (1).
- (4) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i is-ddeddfwriaeth –
 - (a) a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir, a
 - (b) sy'n gymwys ac eithrio o ran Cymru.

40 Cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y Cynulliad

- (1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud, neu'n bwriadu gwneud, offeryn statudol a fyddai fel arall yn ddarostyngedig i ddwy neu ragor o weithdrefnau gwahanol yn y Cynulliad o ganlyniad i'r is-ddeddfwriaeth y mae'n ei chynnwys, mae pa un bynnag o'r gweithdrefnau hynny yn y Cynulliad a grybwyllir gyntaf yn is-adran (2) yn gymwys i'r offeryn (ac nid yw'r un o'r gweithdrefnau eraill yn y Cynulliad yn gymwys).
- (2) Yn yr adran hon, ystyr "gweithdrefn yn y Cynulliad" yw gweithdrefn sy'n cael yr effaith –
 - (a) na chaniateir gwneud offeryn statudol (neu'r is-ddeddfwriaeth y mae'n ei chynnwys) oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad,

- (a) amend the legislation to include an explanation of the date or time they insert;
 - (b) make consequential provision which amends, repeals or revokes any enactment.
- (3) This section applies to the following legislation (whenever enacted or made) –
- (a) Assembly Acts and Assembly Measures;
 - (b) subordinate legislation made under Assembly Acts and Assembly Measures;
 - (c) any other subordinate legislation made by the Welsh Ministers or the National Assembly for Wales established by the Government of Wales Act 1998 (c. 38) that applies only in relation to Wales;
 - (d) any other enactment, so far as it is amended by legislation mentioned in paragraph (a), (b) or (c).

39 Power to make subordinate legislation in different forms

- (1) Where the Welsh Ministers have a power or duty to make subordinate legislation in the form of regulations, rules or an order made by statutory instrument, they may exercise the power or duty by making the subordinate legislation in any other of those forms by statutory instrument.
- (2) This does not affect the procedure for making a statutory instrument containing the subordinate legislation.
- (3) A reference in any enactment, instrument or document to regulations, rules or an order made under the power or duty includes subordinate legislation made under it in any other form in reliance on subsection (1).
- (4) Subsection (1) does not apply to subordinate legislation that –
 - (a) is made under an Act of the Parliament of the United Kingdom or retained direct EU legislation, and
 - (b) applies otherwise than in relation to Wales.

40 Combining subordinate legislation subject to different Assembly procedures

- (1) Where the Welsh Ministers make, or propose to make, a statutory instrument that would otherwise be subject to two or more different Assembly procedures as a result of the subordinate legislation that it contains, whichever of those Assembly procedures is mentioned first in subsection (2) applies to the instrument (and none of the other Assembly procedures apply).
- (2) In this section, “Assembly procedure” means a procedure which has the effect that –
 - (a) a statutory instrument (or the subordinate legislation that it contains) may not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales,

- (b) bod rhaid gosod offeryn statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl iddo gael ei wneud a rhaid iddo gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn i'r is-ddeddfwriaeth y mae'n ei chynnwys ddod i rym neu barhau mewn grym,
 - (c) bod offeryn statudol yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru,
 - (d) bod rhaid gosod offeryn statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl iddo gael ei wneud, neu
 - (e) nad yw'n ofynnol i offeryn statudol gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw adeg.
- (3) Nid yw'r ffaith bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud is-ddeddfwriaeth mewn offeryn statudol y mae is-adran (1) yn gymwys iddo yn –
- (a) eu hatal rhag gwneud is-ddeddfwriaeth bellach mewn offeryn statudol nad yw'r is-adran honno yn gymwys iddo, na
 - (b) effeithio ar y weithdrefn yn y Cynulliad sy'n gymwys i offeryn o'r fath.
- (4) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth –
- (a) a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir, a
 - (b) sy'n gymwys ac eithrio o ran Cymru.

RHAN 4

CYFFREDINOL

41 Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

Mae Atodlen 2 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

42 Pŵer i wneud darpariaeth ychwanegol i roi effaith lawn i'r Ddeddf hon

- (1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddiben rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o'r fath, cânt drwy reoliadau wneud –
- (a) darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig neu ddarpariaeth ganlyniadol;
 - (b) darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu fel arall unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys darpariaeth yn y Ddeddf hon).

43 Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon

- (1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon –
- (a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;
 - (b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

- (b) a statutory instrument must be laid before the National Assembly for Wales after being made and must be approved by resolution of the National Assembly in order for the subordinate legislation that it contains to come into force or continue in force,
 - (c) a statutory instrument is subject to annulment in pursuance a resolution of the National Assembly for Wales,
 - (d) a statutory instrument must be laid before the National Assembly for Wales after being made, or
 - (e) a statutory instrument is not required to be laid before the National Assembly for Wales at any time.
- (3) The fact that the Welsh Ministers have made subordinate legislation in a statutory instrument to which subsection (1) applies does not –
- (a) prevent them making further subordinate legislation in a statutory instrument to which that subsection does not apply, or
 - (b) affect the Assembly procedure that applies to such an instrument.
- (4) Subsection (1) does not apply to a statutory instrument containing any subordinate legislation that –
- (a) is made by the Welsh Ministers under an Act of the Parliament of the United Kingdom or retained direct EU legislation, and
 - (b) applies otherwise than in relation to Wales.

PART 4

GENERAL

41 Consequential amendments and repeals

Schedule 2 contains consequential amendments and repeals.

42 Power to make additional provision to give full effect to this Act

- (1) If the Welsh Ministers consider it necessary or expedient for the purpose of giving full effect to any provision in this Act, or in consequence of any such provision, they may by regulations make –
- (a) supplementary, incidental or consequential provision;
 - (b) transitory, transitional or saving provision.
- (2) Regulations under subsection (1) may amend, repeal, revoke or otherwise modify any enactment (including a provision in this Act).

43 Regulations made under this Act

- (1) A power to make regulations under this Act –
- (a) is exercisable by statutory instrument;
 - (b) includes power to make different provision for different purposes.

- (2) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad –
 - (a) rheoliadau o dan adran 6(2);
 - (b) rheoliadau o dan adran 42(1) sy'n diwygio, yn diddymu neu'n addasu fel arall unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad neu mewn Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.
- (3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan is-adran 42(1) yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

44 Y Ddeddf hon yn dod i rym

- (1) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol –
 - (a) Rhan 1;
 - (b) adran 6(2) a (3);
 - (c) y darpariaethau eraill yn Rhan 2, i'r graddau y maent yn gymwys i'r Ddeddf hon;
 - (d) Rhan 3;
 - (e) y Rhan hon.
- (2) I'r graddau nad yw wedi cael ei dwyn i rym gan is-adran (1), daw Rhan 2 i rym ar ddiwrnod a benodir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.
- (3) O ran gorchymyn o dan is-adran (2) –
 - (a) rhaid ei wneud drwy offeryn statudol;
 - (b) caiff gynnwys ddarpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

45 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

- (2) A statutory instrument containing any of the following may not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales –
 - (a) regulations under section 6(2);
 - (b) regulations under section 42(1) which amend, repeal or otherwise modify any provision in an Assembly Act, an Assembly Measure or an Act of the Parliament of the United Kingdom.
- (3) Any other statutory instrument containing regulations made under section 42(1) is subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales.

44 Coming into force of this Act

- (1) The following provisions come into force on the day after the day on which this Act receives Royal Assent –
 - (a) Part 1;
 - (b) section 6(2) and (3);
 - (c) the other provisions in Part 2, so far as they apply to this Act;
 - (d) Part 3;
 - (e) this Part.
- (2) So far as it is not brought into force by subsection (1), Part 2 comes into force on a day appointed by an order made by the Welsh Ministers.
- (3) An order under subsection (2) –
 - (a) must be made by statutory instrument;
 - (b) may include transitory, transitional or saving provision.

45 Short title

The short title of this Act is the Legislation (Wales) Act 2019.

ATODLEN 1
(A gyflwynir gan adran 6)

DIFFINIADAU O EIRIAU AC YMADRODDION

TABL

Aelod-wladwriaeth (<i>member State</i>)	ystyr "Aelod-wladwriaeth" yw Gwladwriaeth sy'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd
Arglwydd Ganghellor (<i>Lord Chancellor</i>)	ystyr "Arglwydd Ganghellor" yw Arglwydd Uchel Ganghellor Prydain Fawr
Awdurdod Cyllid Cymru (<i>Welsh Revenue Authority</i>)	ystyr "Awdurdod Cyllid Cymru" yw'r awdurdod a sefydlwyd gan adran 2 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6)
Banc Lloegr (<i>Bank of England</i>)	ystyr "Banc Lloegr", yn unol â gofynion y cyd-destun, yw – (a) Llywodraethwr a Chwmni Banc Lloegr, neu (b) banc Llywodraethwr a Chwmni Banc Lloegr
blwyddyn ariannol (<i>financial year</i>)	ystyr "blwyddyn ariannol" yw blwyddyn sy'n gorffen â 31 Mawrth
Bwrdd Iechyd Lleol (<i>Local Health Board</i>)	ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42)
Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (<i>National Assembly for Wales Commission</i>)	ystyr "Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru" yw'r Comisiwn a sefydlwyd gan adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)
Comisiwn Elusennau (<i>Charity Commission</i>)	ystyr "Comisiwn Elusennau" yw Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, a barheir gan adran 13 o Ddeddf Elusennau 2011 (p. 25)
Cwnsler Cyffredinol (<i>Counsel General</i>)	ystyr "Cwnsler Cyffredinol" yw Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, a benodir o dan adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)
Cyfoeth Naturiol Cymru (<i>Natural Resources Wales</i>)	ystyr "Cyfoeth Naturiol Cymru" yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru, a sefydlwyd gan erthygl 3 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. 2012/1903 (Cy. 230))

SCHEDULE 1
(Introduced by section 6)

DEFINITIONS OF WORDS AND EXPRESSIONS

TABLE

Assembly Act (<i>Deddf Cynulliad</i>)	“Assembly Act” means an Act of the National Assembly for Wales, enacted under Part 4 of the Government of Wales Act 2006 (c. 32)
Assembly Measure (<i>Mesur Cynulliad</i>)	“Assembly Measure” means a Measure of the National Assembly for Wales, enacted under Part 3 of the Government of Wales Act 2006 (which ceased to have effect by virtue of section 106 of that Act, subject to the saving which is continued by paragraph 5 of Schedule 7 to the Wales Act 2017 (c. 4))
Bank of England (<i>Banc Lloegr</i>)	“Bank of England” means, as the context requires – (a) the Governor and Company of the Bank of England, or (b) the bank of the Governor and Company of the Bank of England
Charity Commission (<i>Comisiwn Elusennau</i>)	“Charity Commission” means the Charity Commission for England and Wales, continued in existence by section 13 of the Charities Act 2011 (c. 25)
Counsel General (<i>Cwnsler Cyffredinol</i>)	“Counsel General” means the Counsel General to the Welsh Government, appointed under section 49 of the Government of Wales Act 2006 (c. 32)
